# Swydd-ddisgrifiad: Rheolwr Gweithrediadau, Gerddi’r Rheilffordd

**Rydym yn chwilio am Reolwr Gweithrediadau i oruchwylio’r gwaith o ddydd i ddydd o redeg Gerddi’r Rheilffordd, gardd gymunedol a hwb yn y Sblot.**

Rydym wedi ymrwymo i feithrin tîm sy’n cynrychioli amrywiaeth o gefndiroedd, safbwyntiau a phrofiadau. Croesawn ymgeiswyr o bob cefndir, ac rydym yn annog ceisiadau gan aelodau o gymunedau sydd wedi’u tangynrychioli yn y sectorau amgylcheddol a datblygu cymunedol.

**Swydd:** Rheolwr Gweithrediadau
**Sefydliad:**
Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC) Green Squirrel (Rhif Cwmni: 9631141).
**Yn gyfrifol i:** Cyfarwyddwyr CIC Green Squirrel
**Oriau**: Rhan-amser: 25 awr yr wythnos
**Lleoliad:** Gerddi'r Rheilffordd, Y Sblot, Caerdydd, CF24 2BH, gyda gweithio oddi ar y safle’n achlysurol
**Cyflog:** £28,850 FTE, pro rata yn seiliedig ar oriau (yn seiliedig ar oriau llawn amser o 38 awr yr wythnos). Mae hwn yn gyflog o £18,980 cyn treth yn seiliedig ar weithio 25 awr yr wythnos pro-rata.
**Cytundeb:** Hyd cychwynnol y swydd hon yw 24 mis gyda phosibilrwydd o ymestyn y swydd, yn amodol ar gyllid.
**Gwyliau:** 28 diwrnod ynghyd â gwyliau cyhoeddus/banc. Mae’r hawl ar sail pro-rata i weithwyr rhan-amser.
**Cyfnod prawf:** 6 fis

Y dyddiau cau ar gyfer cyflwyno cais yw hanner dydd ar 18 Chwefror.

## Ynghylch Green Squirrel

Ni yw pont Caerdydd rhwng llesiant cymunedol a gweithredu ar yr hinsawdd a natur. Rydym am greu lle i bawb lunio a rhannu dyfodol mwy gwyrdd. Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae pobl, cymunedau a natur yn ffynnu gyda’i gilydd.

Sefydlwyd Green Squirrel yn 2012 a daeth yn Gwmni Buddiant Cymunedol yn 2015. Trwy weithio gyda chymunedau'r Sblot ac Waunadda rydym wedi sefydlu hwb gwydnwch cymunedol ffyniannus ac wedi dod yn llais blaenllaw yng Nghaerdydd a de Cymru dros rym cymunedau wrth ddatblygu a chynnal datrysiadau hinsawdd a natur lleol.

Rydym yn fenter gymdeithasol, sy’n golygu bod ein helw yn cael ei ail-fuddsoddi i greu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol. Gweithiwn yng Nghaerdydd yn bennaf. Rydym wedi ein lleoli yng Ngherddi’r Rheilffordd, ein gardd gymunedol a hwb yn y Sblot, lle rydym yn hwyluso rhaglen o weithgareddau cymunedol yn ogystal â chefnogi grwpiau a phobl leol i ddatblygu ac arwain eu gweithgareddau eu hunain. Rydym hefyd yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau i ennyn diddordeb eu cynulleidfaoedd mewn pynciau’n ymwneud â chynaliadwyedd.

Gallwch ddysgu rhagor am ein gwaith ar ein gwefan greensquirrel.co.uk, a gallwch ddod o hyd i ni ar Facebook ac Instagram: @bemoresquirrel.

## Cyfrifoldebau allweddol y swydd hon fydd:

**Rheoli'r safle:**

- Goruchwylio gweithrediadau ar y safle o ddydd i ddydd yng Ngerddi'r Rheilffordd, gan sicrhau bod y lle'n ddiogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac yn barod i'r gymuned ei ddefnyddio;
- Cydlynu gwirfoddolwyr a chontractwyr i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a gwella;
- Cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch ac ysgrifennu a diweddaru asesiadau risg;
- Sicrhau bod defnyddwyr y safle'n cadw at bolisïau a gweithdrefnau, a chynnal adolygiadau o bolisïau sy'n berthnasol i Erddi'r Rheilffordd;
- Rheoli a phrynu cyflenwadau ac offer sydd eu hangen ar gyfer Gerddi'r Rheilffordd
- Sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'r safle'n teimlo'n gartrefol ac yn gallu cymryd rhan

**Cyflawni rhaglenni:**

- Helpu i reoli ein calendr mewnol a chyhoeddus, a chreu a rheoli rhestrau a thocynnau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus.
- Monitro a chofnodi presenoldeb a chyfrannu at werthuso rhaglenni.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o redeg digwyddiadau mwy, cefnogi gweithwyr llawrydd gyda'u gweithgareddau, a hwyluso digwyddiadau a gweithgareddau llai.

**Gweithio gyda gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned:**

- Rheoli a chefnogi gwirfoddolwyr ar y safle o ddydd i ddydd, yn cynnwys creu cynllun gwaith dyddiol a goruchwylio tasgau.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfranogi i helpu i recriwtio, cydlynu a chyfathrebu â gwirfoddolwyr trwy ein platfform rheoli gwirfoddolwyr (Better Impact)
- Cynnal sesiynau sefydlu grŵp ac unigol ar gyfer gwirfoddolwyr newydd
- Cefnogi Aelodau'r Gymuned gyda'u gweithgareddau a'u prosiectau.
- Mynd i gyfarfodydd y grŵp cynghori ar ddwy noson yn ystod y flwyddyn a darparu nodiadau dilynol.

**Cefnogi cynhyrchu incwm**

- Cymryd archebion i logi'r lleoliad
- Cynnal sesiynau sefydlu ar gyfer unigolion sy'n llogi'r lleoliad a sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer y rhai sydd wedi'i logi.

**Cydweithio a datblygiad personol:**

- Darparu adroddiad byr wythnosol ar weithrediadau a gweithio'n agos gyda chyfarwyddwyr Green Squirrel i sicrhau bod Gerddi'r Rheilffordd yn gweithio'n dda i bawb, yn cyflawni ei nodau, ac yn gweithio o fewn y gyllideb;

- Mynd i gyfarfodydd tîm a chefnogi'r gwaith o baratoi adroddiadau chwarterol ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
- Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol â rhanddeiliaid, cyllidwyr, a sefydliadau partner, hyrwyddo cenhadaeth a gweithgareddau Gerddi'r Rheilffordd i'r gymuned ehangach.
- Cyfrannu at waith tîm cydweithredol trwy lynu wrth systemau Green Squirrel, yn cynnwys calendrau a rennir, systemau cynllunio tasgau, fframweithiau prynu a threuliau;
- Ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu, ac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall a nodwyd.

## Manyleb y person

**Meini prawf hanfodol**: rhaid i'r unigolyn cywir ar gyfer y swydd hon fodloni'r meini prawf canlynol:

- Profiad mewn rôl weithredol neu reoli cyfleusterau;
- Yn hyderus wrth ddefnyddio systemau digidol, meddalwedd archebu, a chynnal cofnodion cywir;
- Profiad o reoli tîm amrywiol o staff neu wirfoddolwyr;
- Meddu ar wybodaeth dda am egwyddorion iechyd a diogelwch a sut i'w rhoi ar waith mewn lleoliad cymunedol;
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol a'r gallu i reoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hun;
- Yn mwynhau gweithio gyda phobl ac yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny ac yn gyfathrebwr clir, amyneddgar a chyfeillgar;
- Yn gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol, yn rhagweithiol wrth flaenoriaethu, datrys problemau a chyflawni pethau
- Yn ddibynadwy, yn gyson, ac yn hunangymhellol.

**Meini prawf dymunol**: byddwn yn ystyried y canlynol wrth lunio rhestr fer ar gyfer y swydd hon:

- Profiad o weithio mewn cymunedau sydd wedi'u tangynrychioli neu gefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau wrth gymryd rhan ym mywyd cymunedol;
- Sgiliau iaith Gymraeg
- Profiad a gwybodaeth am fentrau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol / elusennol
- Yn gyfarwydd â rhai neu'r cyfan o'r offer digidol penodol a ddefnyddiwn yn cynnwys TeamUp, Google Workspace, Slack, a Better Impact.
- Diddordeb mewn garddio.

**Gofynion Technegol**

- Hawl i weithio yn y DU
- Yn gallu bodloni gofynion corfforol y swydd
- Hyblygrwydd i weithio dau hanner diwrnod ar ddydd Sadwrn bob mis, a diwrnodau a nosweithiau ar y penwythnos yn achlysurol yn ôl yr angen.

**Buddion**

- Mynediad at Raglen Cymorth i Weithwyr
- Cyfleoedd hyfforddi
- Cyllideb llesiant a dysgu personol

- Absenoldeb â thâl ychwanegol ar gyfer teithio sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd drwy'r cynllun Absenoldeb ar gyfer Teithio Cynaliadwy

**Sut rydym yn disgwyl i'r swydd hon weithio:**

- Mae'r swydd hon am 25 awr yr wythnos ar draws patrwm gweithio pythefnos o dri diwrnod llawn ac un hanner diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys un hanner diwrnod (4 awr) ar ddydd Sadwrn bob pythefnos.
- Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer y swydd hon, yn cynnwys y gallu i fod ar y safle ar ddechrau (9am) a diwedd (5:30pm) y diwrnod gwaith os oes angen, a gweithio gyda'r nos yn achlysurol iawn, i ddiwallu gofynion llogi'r lleoliad a chyfarfodydd.
- Bydd y swydd hon yn cael ei rheoli gan Gyfarwyddwyr Green Squirrel a bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cyfranogi a gweithwyr llawrydd y prosiect.

**Sut i wneud cais:**

- Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw addasiadau drwy gydol y broses recriwtio ac yn agored i awgrymiadau ar sut y gallwn eich cefnogi yn y broses hon. Cysylltwch â Hannah Garcia trwy: hannah@greensquirrel.co.uk i drafod unrhyw addasiadau.
- I wneud cais, anfonwch CV a llythyr eglurhaol at hannah@greensquirrel.co.uk.
- Rhaid i'ch llythyr eglurhaol esbonio sut rydych chi'n bodloni pob un o ofynion manyleb y person ar gyfer y swydd hon: cofiwch gynnwys enghreifftiau o brofiad perthnasol. Gall y rhain fod o wirfoddoli neu brofiad bywyd yn ogystal â gwaith am dâl.
- Ceisiwch gadw'ch llythyr eglurhaol i ddwy ochr A4

Mae croeso i chi gyflwyno cais yn y Gymraeg neu Saesneg.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw hanner dydd ar 18 Chwefror**. Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd a ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer erbyn diwedd y diwrnod gwaith **ddydd Gwener 20 Chwefror**. Yn anffodus, ni allwn roi adborth ar geisiadau ar y cam hwn.

Cynhelir cyfweliadau ddydd **Mercher 25 Chwefror** a byddant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Ngherddi'r Rheilffordd. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, gofynnir i chi ddewis slot amser. Byddwn yn anfon y cwestiynau cyfweliad a thasg fer, syml atoch ymlaen llaw. Cynhelir cyfweliadau yn Saesneg. Bydd cyfle gennych i roi gwybod i ni am unrhyw addasiadau sydd eu hangen arnoch ar gyfer y broses gyfweld.

Gobeithiwn y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dechrau yn ei swydd ar yr wythnos sy'n dechrau **30 Mawrth**, er bod rhywfaint o hyblygrwydd o ran hyn os oes angen.